**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-JH-0452-25

Buffy Williams AS
Caderydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

02 Ebrill 2025

Annwyl Buffy a Jenny

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Mawrth sy'n nodi cwestiynau gan eich dau Bwyllgor mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo. Rwy'n ymwybodol o lythyr ar wahân gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gofyn cwestiwn tebyg i'ch chweched cwestiwn. Rwyf hefyd yn ymateb ar ran y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, fel Gweinidog Cymru sydd wedi gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn.

**Beth yw eich barn ar gymal 38, ac a oes gennych unrhyw bryderon am weddill y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Mudo Anghyfreithlon 2023 ac elfennau o Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022?**

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rydym yn falch y bydd cymal 38 yn diddymu'r agweddau ar Ddeddf Mudo Anghyfreithlon 2023 sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol datganoledig plant. Bydd cefnogi'r diddymiad hwn yn rhoi effaith i ewyllys Aelodau'r Senedd a fynegwyd yn flaenorol (o dan Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol perthnasol y Ddeddf Mudo Anghyfreithlon) ynghylch deddfwriaeth flaenorol Llywodraeth y DU yn y maes hwn.

Mae ein pryderon am Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022, a nodwyd hefyd mewn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cysylltiedig, yn parhau. Rydym yn parhau i fod o'r farn bod Senedd Cymru eisoes wedi deddfu mewn perthynas â chymorth i blant mudol ar eu pen eu hunain yng Nghymru drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a bod safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag asesu oedran plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches wedi'i nodi yn ein Pecyn Cymorth Asesu Oedran. Hoffem weld y darpariaethau cysylltiedig yn cael eu diddymu mewn pryd.

Mae'r darpariaethau ehangach o fewn Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 a Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023 yn ymwneud â swyddogaethau a rhwymedigaethau neilltuol. Rydym yn ymgysylltu'n agos â'n swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU i geisio sicrhau y gallwn gymhwyso ein polisi Cenedl Noddfa i'r eithaf o fewn y Rheolau a Phrosesau Mewnfudo a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU.

**Beth yw eich barn ar natur ôl-weithredol cymal 51?**

Mae'r cymal yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg hanesyddol posibl o sefydlu *vires* cyfreithiol ar gyfer ffioedd a godwyd ledled y DU trwy ddarpariaeth a gynhwysir yn y Bil yng nghymal 51. Mae'r cymal hwn hefyd yn mynd i'r afael â sefydlu *vires* cyfreithiol hanesyddol ar gyfer Gwasanaeth Fisâu a Chenedligrwydd y Swyddfa Gartref (mater a gedwir yn ôl) a Gwasanaeth Cydnabod Cymwysterau Blynyddoedd Cynnar o'r tu allan i'r DU yr Adran Addysg sy'n berthnasol i Loegr.

Ni fydd defnyddwyr Gwasanaeth ENIC y DU, sy'n cynnwys y rhai yng Nghymru, yn wynebu unrhyw faich ychwanegol o ganlyniad i'r mesur hwn. Mae hyn yn cael ei gyfiawnhau fel modd cymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon o sicrhau bod y sefyllfa ddeddfwriaethol yn glir ac yn sicr.

Mae Gwasanaeth ENIC y DU wedi cael ei reoli gan Ecctis Ltd ar ran Llywodraeth y DU ers o leiaf 2014. Mae'r ddeddfwriaeth ôl-weithredol yn lliniaru'r risg y byddai defnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru y mae Ecctis wedi codi ffioedd arnynt yn dwyn hawliadau am ad-daliadau yn erbyn Llywodraeth y DU, a allai olygu y byddai'r costau hanesyddol hynny yn cael eu trosglwyddo i'r trethdalwr.

**Pa drafodaethau ydych wedi'u cael â'r 17 sefydliad yng Nghymru sydd ag aelodaeth weithredol o Wasanaeth ENIC y DU?**

Mae Llywodraeth y DU yn arwain grŵp cyfeirio rhanddeiliaid ENIC y DU, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff sector a grwpiau defnyddwyr terfynol o bob cwr o'r DU. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn mynd i gyfarfodydd y grŵp hwnnw. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw drafodaethau ar wahân â'r 17 sefydliad yng Nghymru sydd ag aelodaeth weithredol o Wasanaeth ENIC y DU.

Mae trafodaethau rhwng Llywodraethau Datganoledig a swyddogion Llywodraeth y DU yn parhau, gyda'r bwriad o gryfhau goruchwyliaeth Llywodraethau Datganoledig o gontract ENIC newydd y DU (a oedd yn weithredol o 28 Mawrth 2025), yn benodol drwy sefydlu grŵp goruchwylio newydd a fydd yn cyfarfod yn rheolaidd i graffu a monitro'r gwasanaeth. Er mwyn cefnogi dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o dueddiadau presennol, a rhai'r dyfodol, ynghylch cymariaethau rhyngwladol o gymwysterau, gwahoddir sefydliadau yng Nghymru sydd ag aelodaeth weithredol o Wasanaeth ENIC y DU i rannu eu barn â swyddogion Llywodraeth Cymru cyn y cyfarfodydd hyn.

**A ydych wedi gofyn am unrhyw eglurhad ynghylch sut y cododd y materion yr ymdrinnir â hwy yng nghymal 51 yn y lle cyntaf, ac a yw'r Swyddfa Gartref yn cynnal adolygiad o'r sefyllfa?**

Yn ystod y broses o ail-gaffael gwasanaeth ENIC y DU yn 2024, nododd yr Adran Addysg ddiffyg posibl mewn *vires* cyfreithiol ar gyfer y ffioedd a godwyd gan ddarparwr y gwasanaeth. Mae'r Adran Addysg wedi hysbysu Llywodraethau Datganoledig am y mater hwn, ac maent wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd ers hynny.

**A ydych wedi cael amcangyfrif o swm a gwerth y ffioedd a godwyd heb awdurdod statudol, ac o'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru?**

Yn ystod 2024 gwnaed dros 700 o ymholiadau i wasanaeth ENIC y DU gan aelod-sefydliadau yng Nghymru – y mwyafrif ohonynt yn dod o brifysgolion Cymru. Yn ystod y cyfnod 2022 – 2024 cafwyd dros 1400 o geisiadau i ENIC y DU gan unigolion sy'n byw yng

Nghymru. Bydd llawer mwy o unigolion yn gwneud cais o dramor gyda'r bwriad o astudio neu weithio yng Nghymru.

Yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru yw na fyddant yn wynebu unrhyw faich ariannol ychwanegol o ganlyniad i Gymal 51, ac na fyddant yn gallu adennill ffioedd a dalwyd am y gwasanaethau yn y gorffennol. Mae'r defnyddwyr gwasanaethau hynny y codwyd ffioedd arnynt yn flaenorol wedi cael budd o'r gwasanaeth arfaethedig.

**Pam nad ydych yn ceisio cydsyniad ar gyfer cymal 53 o'r Bil? Mae cymal 53 yn cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ganlyniadol. Gall y rheoliadau hyn ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu deddfiadau. Mae cymal 53(3)(c) yn datgan bod "deddfiad" yn cynnwys deddfiad sydd wedi'i gynnwys mewn Mesur neu Ddeddf Senedd Cymru, neu wedi'i gynnwys mewn offeryn a wneir o dan Fesur neu Ddeddf Senedd Cymru.**

Nid oedd cymal 53 wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan ei fod yn bŵer cul sydd wedi'i gyfyngu i wneud diwygiadau gofynnol i ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad uniongyrchol i ddarpariaethau'r Bil ddod i rym. Bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf mewn perthynas â phynciau a gedwir yn ôl, gan fod mwyafrif y Bil y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol.

Gobeithio y bydd yr ymatebion hyn o gymorth i'r Pwyllgorau wrth ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Cofion gorau,

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip